Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar :

# Cylch Chwarae Rhosneigr
Ysgol Rhosneigr
Sandy Lane
Rhosneigr
LL64 5XA

**Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2012**

**gan**

**Mr Peter Mathias**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 25/05/2012**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Saesneg yw Cylch Chwarae Rhosneigr a gofrestrir ar gyfer 12 o blant o oedran dwy i bedair blwydd oed. Mae'n darparu addysg feithrin ar gyfer plant o'r ardal leol ar y safle a rannir gydag Ysgol Gynradd Rhosneigr. Mae bron pob un o'r plant hefyd yn mynychu sesiynau prynhawn meithrinfa Ysgol Gynradd Rhosneigr o'r Mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn dair oed.

Ar hyn o bryd, mae'r lleoliad y darparu ar gyfer 10 o blant am bump sesiwn boreol yr wythnos am ddwy awr (9:00 – 11:0).

Daw'r plant sy'n mynychu o ystod eang o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd. Yn gyffredinol nid ydynt naill yn freintiedig nac ychwaith dan anfantais. Ni nodir bod yr un plentyn gyda rhywfaint o anghenion dysgu ychwanegol. Mae bron pob un yn dod o gefndir gwyn Prydeinig. Mae un plentyn â'r Gymraeg fel iaith y cartref.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Chymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Ebrill 2012.Ni wnaethpwyd unrhyw argymhellion arwyddocaol yn yr Adroddiad hwnnw. Arolygwyd y lleoliad cyn hynny gan Estyn ym mis Mawrth 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd:

- y cynnydd wnaiff y plant bron ymhob un o'r ardaloedd dysgu, yn enwedig yn natblygiad eu iaith Saesneg a'u hiaith Gymraeg;
- yr addysgu a'r asesu da cyson;
- trefniadaeth systematig o gwricwlwm ysgogol;
- y cydweithio effeithiol cydrhwng ymarferwyr ; a
- chysylltiadau anffurfiol cadarn gyda rhieni a gofalwyr.

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd:

- yr ymrwymiad i hunan arfarnu a gwelliant;
- y cynnydd wnaethpwyd ers yr arolygiadau diweddar;
- y berthynas gadarnhaol gyda'r ysgol gynradd; a'r
- gefnogaeth effeithiol a geir oddi wrth yr awdurdod lleol ynghyd â'r berthynas adeiladol gyda'r awdurdod lleol.

## Argymhellion

Cytunodd yr arolygydd gyda'r lleoliad ynglŷn â'r argymhellion canlynol ar gyfer gwella:

A1 gwella medrau a hyder y plant mewn technoleg gwybodaeth a chyfathrebu trwy wneud defnydd rheolaidd o'r holl adnoddau electroneg a defnyddio ystod eang o raglenni cyfrifiadurol addas i gefnogi dysgu: a

A2 chryfhau rôl y pwyllgor rheoli fel y byddant yn fwy gwybodus am berfformiad y lleoliad a'u bod yn cyfranogi'n llawn gyda gwneud penderfyniadau hir dymor.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Ar draws y lleoliad mae pob un o'r plant yn cyflawni'n dda am eu hoedran gwahanol ac yn gwneud cynnydd da. Dônt i'r sesiynau yn llawn brwdfrydedd a gweithiant yn galed trwy gydol yr amser y treuliant yno. Meddant lefelau da o ganolbwyntio, ac maent yn chwilfrydig ac yn awyddus i ymchwilio.

Wrth gyfathrebu yn Saesneg a'r Gymraeg , mae bron pob un yn gwneud cynnydd da wrth ddefnyddio geiriau newydd ac wrth siarad yn hyderus. Yn aml gwnânt hynny yn glir a gyda mynegiant wrth siarad ag oedolion a gyda'i gilydd. Yn yr enghreifftiau gorau mae plant yn symud yn rhwydd o un iaith i'r llall, er enghraifft wrth ddisgrifio eu hunain neu wrth siarad am y tywydd garw tu allan. Gwyddant fod gan lyfrau wybodaeth mewn lluniau ac mewn geiriau. Edrychant yn fanwl i weld nodweddion dinosoriaid gwahanol a dyfeisiant enwau i gyd-fynd âr lluniau. Yn y Gymraeg maent yn dechrau ymateb i gyfarwyddiadau estynedig ac i siarad yn hyderus am sut maent yn teimlo. Rhifant yn y Gymraeg hyd at 10 ac fe wyddant enwau rhai gwrthrychau pob dydd. Dangosant fwynhad wrth wrando ar stori ddwedir yn y Gymraeg.

Mae pob un yn awchus i ymchwilio y testunau maent yn eu hastudio. Canfyddant sut mae creaduriaid yn byw a'u hanghenion. Sylwant sut mae'r tymhorau yn effeithio ar eu bywydau a sut maent hwy eu hunain yn newid. Edrychant yn ofalus ar ffosiliau drwy chwyddwydr i arsylwi'r manylion a gynhwysir yn y samplau.

Mae pob un ohonynt yn darllen eu henwau ac yn dechrau adnabod y synau wnaiff llythrennau ac yn gwybod bod testun yn cyfleu ystyr. Maent yn dechrau ffurfio llythrennau ac yn 'ysgrifennu' eu henwau ac yn cofnodi eu meddyliau. Maent yn gafael mewn offer yn briodol ac yn gwneud marciau yn hyderus.

Erbyn diwedd eu harhosiad yn y lleoliad mae pob un ohonynt yn adnabod rhifau o fewn 10 mewn trefn a phan eu hysgrifennir fel rhifolion. Gosodant gownteri priodol i gyd-fynd â nifer o wrthrychau mewn rhes. Dilynant rediadau syml a rhagfynegant beth ddylai ddigwydd nesaf. Maent yn dechrau deall maint a siâp gwrthrychau i bennu sut maent yn ffitio gyda'i gilydd a beth y gallent ei ddal.

Mae bron pob un yn gwybod sut wneud i degan rhaglenadwy ddilyn llwybr penodedig a sut i ddefnyddio system reoli i symud model dinosor electronig. . Defnyddiant gamerâu, ffonau ffug ac offer cegin electronig ffug. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar maent wedi cael y cyfle i ddefnyddio cyfrifiadur addas ac nid oes ganddynt ond cyflenwad cyfyngedig iawn o feddalwedd.

Medda pob un o'r plant fedrau creadigol da. Maent yn ffurfio ac yn trin a thrafod deunyddiau hydrin i ffurfio siapiau dinosor yn frwd gan ddefnyddio offer yn effeithiol i wneud hynny. Maent yn tynnu llun amlinellau ac yn defnyddio siswrn yn ofalus i'w torri allan. Defnyddiant ystod eang o gyfryngau i gynhyrchu gludweithiau a phrintiau.

**Lles: Da**

Mae pob un yn y lleoliad yn golchi eu dwylo yn frwd ac y gwybod pam y dylent wneud hynny. Maent yn deall sut a pham y dylent lanhau eu dannedd. Maent yn dechrau gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng bwydydd iach a bwydydd gwael a'r hyn sy'n digwydd pan fônt yn gwneud ymarfer corff. Mae bron pob un ohonynt yn gwisgo a dadwisgo eu dillad allanol yn briodol ac yn annibynnol.

Mae pob un yn hapus i chwarae gyda'i gilydd ac maent yn barod i rannu eu hadnoddau. Maent yn ysgwyddo cyfrifoldebau yn dda, er enghraifft wrth ddosbarthu ffrwythau amser byr brydau ac yn sicrhau bod eraill yn gwrtais ac yn dweud 'diolch'.

Mae pob un yn gwybod yr hyn sydd i'w ddisgwyl oddi wrthynt ac maent bron pob amser yn dilyn y cyfarwyddiadau gânt. Maent yn ymwybodol o sut i ddefnyddio offer fel siswrn yn ddiogel ac maent yn ceisio peidio â niweidio eraill.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad wedi ei drefnu'n dda i alluogi plant i gael mynediad i gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i adeiladu yn systematig ar yr hyn maent eisoes yn ei wybod ac yn gallu ei wneud. Mae nifer o'r profiadau a gynigir wedi eu cydweddu â themâu neu ardal o ddiddordeb mae'r plant yn eu canfod yn ysgogol ac sy'n eu hannog i ymchwilio o'u gwirfodd.

Cynllunnir y cwricwlwm yn feddylgar fel y cynhwysir pob maes dysgu ar gyfer plant o'r oedran hyn. Sicrha'r cynllunio bod ymarferwyr yn ymwybodol o'r camau nesaf i'w trefnu fel bod plant yn gwneud cynnydd da.

Mewn llythrennedd a chyfathrebu yn Saesneg ac yn y Gymraeg, llunnir y cynlluniau yn ofalus fel y darperir nifer o gyfleoedd ar gyfer pob plentyn i siarad a gwrando'n hyderus ac i ddechrau deall sut i ddarllen ac ysgrifennu.

Cryfder arbennig yw'r ffordd y caiff profiadau eu trefnu i hybu chwilfrydedd a diddordeb naturiol plant i ganfod drostynt eu hunain am ystod eang o themâu a thestunau. Er enghraifft ceir darpariaeth dda iddynt ddysgu am fywyd mewn rhannau arall o'r byd a rhai o'r arferion a ffyrdd o fyw tu hwnt i'w bywyd nhw.

Darpara'r lleoliad hefyd ystod eang o gyfleoedd i blant i ddysgu mwy am eu hardal leol a'r trigolion sy'n byw ac yn gweithio ynddi.

**Addysgu: Da**

Defnyddia'r ddau ymarferwr eu profiad yn dda i weithio'n effeithiol fel tîm, gan rannu cyfrifoldebau ac yn barod iawn i gyfnewid rôl. Maent yn annog yn llwyddiannus pob plentyn i ddysgu sut i feddwl pethau allan drostynt eu hunain ac i wneud eu dewisiadau eu hunain. Cryfder neilltuol yw'r awyrgylch cynnes, teuluol a feithrinir ganddynt trwy gyfrwng y gefnogaeth a'r anogaeth agos ac unigol a dangosant. Mae

disgyblion unigol yn gwybod y cânt eu gwerthfawrogi ac y caiff eu hymdrechion gydnabyddiaeth wresog.

Medda’r ddau ymarferwr ddisgwyliadau uchel o’r hyn y dylai eu plant gyflawni ac maent yn eu hannog yn gadarnhaol i wneud hynny. Yn yr enghreifftiau gorau maent yn feddylgar yn gofyn cwestiynau sy’n annog plant i feddwl pethau allan drostynt eu hunain. Darllenant gyda mynegiant a chyflwynant y Gymraeg yn rheolaidd yn eu sgyrsiau. Mae gan y lleoliad drefniadau trylwyr i gofnodi sgiliau sylfaenol a lefelau aeddfedu plant pan gychwynnant yn y lleoliad. Ymgymerir â hyn  ar y cyd â rheini. Defnyddir yn dda'r cofnod manwl o’r cynnydd a wneir i roi gwybodaeth i rieni ac i ffurfio trosolwg o gyflawniadau unigol eu plant.

Cofnoda ymarferwyr gynnydd unigol yn rheolaidd , gan ddefnyddio nodiadau arsylwadau anffurfiol a ffurfiol i gyfrannu at adolygiadau wythnosol a chynllunio cyfarfodydd. Cyfranna’r arfarniadau hyn yn arwyddocaol at gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mae gweithdrefnau asesu hefyd yn cynnwys cyfleoedd a gymerir yn dda i drafod gyda phlentyn unigol sut y maent yn mwynhau eu hymchwiliadau a beth y gallent wneud nesaf. Fodd bynnag, ychydig bwyslais yn unig osodir ar drafod sut y gellir gwella darn o waith.

## Gofal, cymorth ac arweiniad:  Da

Mae’r lleoliad yn ymwybodol iawn ynglŷn â sicrhau iechyd a lles disgyblion. Mae ganddynt drefniadau eang ac effeithiol yn bodoli yn yr ardaloedd hyn ac i feithrin diddordeb plant yn y byd o’u hamgylch. Caiff pob plentyn arweiniad clir a'u hatgoffa o’r disgwyliadau sydd ohonynt. Medda’r lleoliad set o reolau wedi eu trefnu’n dda sy’n pwysleisio pwysigrwydd parch a gofal am bob peth byw. Mae darpariaeth dda i blant i werthfawrogi eu hunaniaeth Gymreig ac i ddechrau deall bod gan y byd nifer o ddiwylliannau a ffyrdd o fyw gwahanol.

Ceir trefniadau da i fynd i’r afael ag anghenion pob plentyn ac i sicrhau bod pob un yn cael eu trin yn gyfartal. Mae ymarferwyr yn ymwybodol iawn o’r angen i sicrhau yr adnabyddir y rhai gydag anghenion arbennig ac y derbyniant gymorth ac anogaeth briodol.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau a pholisi priodol ar gyfer diogelu. Mae pob plentyn yn teimlo’n ddiogel yn y lleoliad ac yn mwynhau bod yn rhan ohono.

## Yr amgylchedd dysgu:  Da

Mae’r lleoliad wedi ei drefnu’n dda i hybu ystod eang o brofiadau sy’n diwallu anghenion y Cyfnod Sylfaen. Mae’r rhain yn annog y plant i ddysgu trwy brofiadau ymarferol ac i wneud dewisiadau drostynt eu hunain.

Mae cymhareb briodol o ymarferwyr i blant ac mae ganddynt gymhwyster  a phrofiad priodol. Sicrhânt y caiff pob plentyn ei drin yn gyfartal ac fe berchir eu cefndir

gwahanol a'u pwynt cychwyn. Ceir mynediad da i bawb gan gynnwys y rhai sydd ag anabledd corfforol.

Nodir anghenion hyfforddiant y ddau ymarferwr ac fe gyf-ddyddir eu harbenigedd proffesiynol. Mae gan y lleoliad fynediad da a rheolaidd i'r ysgol gynradd gerllaw ac i'r ardal leol. Mae'r adnoddau o ansawdd a mesur da ac yn cynorthwyo i gyfrannu at amgylchfyd gwaith bywiog a lliwgar sy'n addas ar gyfer plant o bob oedran.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae goruchwyliwr y lleoliad a'r cynorthwyydd yn cydweithio'n agos a llwyddiannus i ddarparu'n dda ar gyfer pob plentyn. Maent yn cynllunio'n ofalus ac yn drylwyr gyda'i gilydd ac yn rhannu cyd ymrwymiad i sicrhau bod pob plentyn yn hapus ac yn llwyddiannus yn ystod eu harhosiad yn y lleoliad. Mae gan y lleoliad gysylltiadau cadarn ac effeithiol gyda rhieni, sydd yn gwerthfawrogi'r mynediad hawdd sydd ganddynt a'r cyngor a dderbyniant. Fe'u hanogir yn llwyddiannus i chwarae rhan lawn yn addysg eu plant.

Mae gan gadeirydd y pwyllgor rheoli agwedd gadarnhaol iawn i ymglymu pob rhiant yn y pwyllgor rheoli.Ceir cyfarfodydd misol rheolaidd gydag agenda. Mae gan y pwyllgor drysorydd ac ysgrifennydd gweithredol. Mae'r pwyllgor yn cwrdd â'i gyfrifoldebau cyfreithiol. Gwahoddir pob rhiant i fynychu ac i gyfrannu at drafodaethau a mentrau. Mae'r rhain yn bennaf yn ymwneud â digwyddiadau codi arian a chymdeithasol. Nid oes gan y pwyllgor rheoli fawr o ymwybyddiaeth o berfformiad cyffredinol y lleoliad nac mewn pennu gyda'r arweinyddiaeth y ffordd ymlaen. Ychydig o gyfleodd gânt i werthfawrogi 'r hyn mae'r lleoliad yn ei wneud yn dda a ble y dylid gwneud gwelliannau.

Mae'r lleoliad yn cwrdd â blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn dda. Gwnaed cynnydd da i ddiwallu anghenion y Cyfnod Sylfaen ac wrth ddatblygu hyder a gallu disgyblion i fynegi eu hunain yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Gweithia'r lleoliad yn agos gyda'r ysgol gynradd gerllaw a rhydd bwyslais priodol ar annog ymwybyddiaeth o fyw yn iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Medda'r staff ddealltwriaeth dda o anghenion ac ardaloedd o gryfder y lleoliad. Trafodant yn rheolaidd y ffordd ymlaen a chynlluniant i gwrdd â blaenoriaethau. Maent wedi cynnal adolygiad ffurfiol ac wedi gwneud dadansoddiad agored o'r lleoliad wedi ei seilio ar dystiolaeth uniongyrchol ac maent wedi trafod hyn gyda'r awdurdod lleol. Maent hefyd wedi ceisio cyrchu barn rhieni trwy holiadur a luniwyd yn ofalus. Mae cynllun datblygu ysgol a gydosodwyd yn ddiweddar yn dynodi'n fanwl gywir flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae cysylltiadau gyda'r awdurdod lleol yn gadarn ac wedi eu seilio ar drafodaethau adeiladol a chynllunio pwrpasol ar gyfer gwella. Mae trefniadau ar gyfer y ddau ymarferwr i fynychu cyrsiau lleol ac i gysylltu gyda lleoliadau eraill. Mae cysylltiadau gyda'r ysgol gynradd ar gyfer datblygiad proffesiynol ymarferwyr yn anffurfiol. Fodd bynnag, mae system effeithiol sydd wedi ei sefydlu'n dda i sicrhau bod pob plentyn yn ymsefydlu'n dda i fywyd pan fyddant yn symud ymlaen. Mae rhieni'n cyfranogi'n llawn yn y trafodaethau am gynnydd eu plant a'u hanghenion ar gyfer y dyfodol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Dosberthir aelodau staff yn dda ac maent y gweithio'n effeithiol. Mae gan y lleoliad adnoddau da ac yn gyffredinol fe ddefnyddir yr adnoddau a'r amgylchfyd ehangach yn dda. Mae adnoddau i ddatblygu sgiliau plant mewn sut i ddefnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y cwricwlwm yn gyfyngedig. Gyda'r eithriad hwn fe ddefnyddir adnoddau yn dda. Mae'r lleoliad yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i’r holiadur i rieni**

Dim ond nifer fach o rieni ymatebodd i’r holiadur. Nid yw’n briodol adrodd eu hymatebion yn fanwl. Fodd bynnag, roedd eu barn yn gyffredinol yn gadarnhaol.

**Ymateb i’r holiadur i ddysgwyr**

Gweithiodd pob plentyn yn y lleoliad yn hapus gyda’i gilydd ac roeddynt yn hyderus. Daethant o’u gwirfodd ac roeddynt yn mwynhau gweithio a chwarae gyda phlant eraill a gyda’u cynorthwywyr. Edrychasant ymlaen at gael eu gofyn i gynorthwyo ac ymgymerasant â’u dyletswyddau’n drylwyr.

## Atodiad 2

**Yr Arolygydd Cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Peter Mathias | Arolygydd Cofnodol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

| Rhestr termau |
|---|

| | |
|---|---|
| **Meysydd Dysgu** | Y saith maes sy'n gwneud cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg yw'r rhain. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg gan mai hon yw iaith y lleoliad eisoes.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br> datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol;<br> medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br> datblygiad mathemategol;<br> datblygu'r Gymraeg;<br> gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd;<br> datblygiad corfforol; a<br> datblygiad creadigol. |
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn un o isadrannau Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad Llywodraeth Cymru. |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (EYDCP)** | Mae'r bartneriaeth hon, sy'n rhan o'r awdurdod lleol, yn cymeradwyo lleoliadau i ddarparu addysg. Hefyd, mae ganddi'r pŵer i dynnu cyllid yn ôl gan leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy'n ymwneud â'r blynyddoedd cynnar a chyfnod allweddol 1 (plant rhwng tair a saith oed). Nod y fenter yw darparu cwricwlwm eang, cytbwys ac amrywiol mewn saith maes dysgu er mwyn diwallu anghenion datblygu gwahanol blant ifanc. Y saith maes dysgu yw:<br> datblygiad personol a chymdeithasol a lles;<br> iaith, llythrennedd a chyfathrebu;<br> datblygiad mathemategol;<br> dealltwriaeth ddwyieithog ac amlddiwylliannol;<br> gwybodaeth am y byd a dealltwriaeth ohono;<br> datblygiad corfforol; a<br> datblygiad creadigol. |
| **Proffil asesu datblygiad plentyn y Cyfnod Sylfaen** | Proffil asesu wrth ymuno â'r Cyfnod Sylfaen; mae hwn yn ofyniad statudol mewn ysgolion o fis Medi 2011 ac mewn lleoliadau o fis Medi 2012. |
| **Athro ymgynghorol yr awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn y darparu cefnogaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant rheolaidd ar gyfer lleoliadau na'u cynhelir sy'n darparu addysg ar gyfer plant tair a phedair blwydd oed |
| **Mudiad Meithrin** | Y sefydliad ar gyfer addysg feithrin Cymraeg yw hwn. Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy |

| | |
|---|---|
| | gyfrwng y Gymraeg. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant (NCMA)** | Elusen genedlaethol a sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli gwarchodwyr plant cofrestredig yng Nghymru a Lloegr. Mae'r gymdeithas yn darparu mynediad i wasanaethau, hyfforddiant, gwybodaeth a chynllun sicrhau ansawdd. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd** | Elusen genedlaethol sy'n anelu i wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn-ysgol Cymru (WPPA)** | Mudiad gwirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal ac addysg cyn-ysgol yn y gymuned. |